**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
09 Ionawr 2024

## 1. Disgrifiad

Mae Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024 ('y Gorchymyn') yn darparu ar gyfer ychwanegu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn') at y rhestr o gynhyrchwyr ystadegau swyddogol yng Nghymru.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

O dan adran 6(1)(a) o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ('Deddf 2007') mae'r holl ystadegau a gynhyrchir gan y Bwrdd Ystadegau (Awdurdod Ystadegau'r DU), adrannau'r llywodraeth, Gweinyddiaeth yr Alban, awdurdod gweinidogol Cymreig, adran yng Ngogledd Iwerddon neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran y Goron yn "ystadegau swyddogol". Mae Deddf 2007 hefyd yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud gorchmynion sy'n pennu cyrff eraill fel cynhyrchwyr ystadegau swyddogol (adran 6(1)(b)(iii)).

Mae Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017, a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2007, yn darparu bod yr ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan yr 20 corff sydd bellach wedi'u rhestru yn yr Atodlen yn ystadegau swyddogol. Yn fwyaf diweddar, ychwanegodd Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2021 y corff newydd ei sefydlu, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, at y rhestr.

Sefydlwyd y Comisiwn fel endid cyfreithiol ar 15 Rhagfyr 2022 trwy gychwyn adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (fel y darparwyd ar ei gyfer gan Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (Cychwyn Rhif 1) 2022).

Sefydlwyd y Comisiwn yn llawn ar 4 Medi 2023, pan ddechreuodd y Prif Swyddog Gweithredol a'r pum aelod cyffredin yn eu swyddi ac yn dilyn gwneud Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023.

Mae'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn rhinwedd adrannau 6(1)(b)(iii), 6(2) a 65(7) o Ddeddf 2007.

Ar yr amod ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Senedd, caiff y Gorchymyn ei wneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am strategaeth, cyllido a goruchwylio'r sectorau canlynol yng Nghymru:

- addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion;

- addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi;
- addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned;
- prentisiaethau.

Bydd swyddogaethau allweddol sy'n ymwneud â chasglu, dadansoddi a lledaenu'r data hyn, a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yn trosglwyddo i'r Comisiwn.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn gael ei ychwanegu at y rhestr o gyrff y mae eu hystadegau wedi'u pennu'n ystadegau swyddogol. Bydd hyn yn cynnwys rhai ystadegau swyddogol a gyhoeddir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

Dyma effaith pennu ystadegau a gynhyrchir gan gyrff penodol yn "ystadegau swyddogol":

a) mae cynhyrchu a chyhoeddi ystadegau swyddogol yn ddarostyngedig i fonitro ac adrodd gan y Bwrdd Ystadegau (Awdurdod Ystadegau'r DU) (adran 8 o Ddeddf 2007);

b) mae'n ofynnol i'r personau sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol a ddynodir fel "Ystadegau Gwladol" gydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ('y Cod'), er mwyn cadw'r dynodiad hwnnw (adran 13 o Ddeddf 2007). Ar gyfer ystadegau swyddogol nad ydynt wedi'u dynodi'n "Ystadegau Gwladol" nid yw cydymffurfiaeth â'r Cod yn ofyniad statudol ond mae'n arfer orau i'w dilyn;

c) rhaid i'r personau sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol gydymffurfio â'r rheolau a'r egwyddorion perthnasol sy'n ymwneud â rhoi mynediad cyn rhyddhau i ystadegau swyddogol i'r graddau sy'n berthnasol iddynt. Mae'r rheolau hyn wedi'u hamlinellu yng Ngorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009;

d) rhaid i'r person sy'n gyfrifol am unrhyw ystadegau swyddogol y mae asesiad yn cael ei wneud mewn cysylltiad â hwy o dan adran 12 o Ddeddf 2007 ddarparu i'r Bwrdd Ystadegau wybodaeth am yr ystadegau y gall yn rhesymol ofyn amdani.

## 5. Ymgynghori

Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 6 o Ddeddf 2007, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Awdurdod Ystadegau'r DU. Ar 12 Medi 2023, cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i swyddogion ymgysylltu ag Awdurdod Ystadegau'r DU ar ei rhan. Ysgrifennodd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru at Ystadegydd Cenedlaethol Awdurdod Ystadegau'r DU ar 13 Medi 2023 i ofyn yn ffurfiol am ei farn ar gynnwys y Comisiwn fel darparwr ystadegau swyddogol. Ar 26 Medi 2023, nododd yr Ystadegydd Cenedlaethol ei fod yn fodlon i'r Comisiwn gael ei gynnwys yn y Gorchymyn. Nododd Bwrdd Awdurdod Ystadegau'r DU y cais hefyd yn ei gyfarfod ar 26 Hydref 2023.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Gan fod y Gorchymyn yn gwneud diwygiad technegol arferol sy'n ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau o un sefydliad i'r llall ac na ragwelir unrhyw effaith fawr ar bolisi, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn cynnwys cyfeiriad at y Comisiwn yn dod yn gorff ystadegol swyddogol ac yn cynnwys costau mewn perthynas ag adnoddau.